

Em: Wagyn trên. Be' am i ni chware 'Wagyn trên?

Deio: Fi yw John Wên te!

Mags: A fi yw 'i wraig e!

Deio: Paid â bod yn dwp – 'sda John Wên ddim gwraig siŵr!

Mags: Ma' 'da bawb wraig, Deio!

Em: Menyw gwahanol sy' 'da fe bob tro.

Deio: Hen gi!

(DEIO AC EM YN PIFFIAN CHWERTHIN.)

Mags: A cheffyl!

Rhi: Beth?

Mags: J...J... John Wên. Dyna s'da fe. Hen gi a cheffyl!

(DEIO AC EM YN CHWERTHIN.)

Mags: Be sy'n bod?

Deio: Dim!

Em: Dim!

(CHWERTHIN ETO.)

Rhi: Be sy'n bod . Em?

Em: Dim!

Rhi: O! Ti'n chwerthin ar ddim nawr wyt ti?

Em: Deio'n chwerthin 'fyd!

Rhi: Bydde fe! O'n i'n credu fod da ti fwy yn dy ben.

Deio: Hy! Ers pryd?

Em: **TROI'R STORI YN FWRIADOL.**

Fi yw John Wên!

Deio: Cer i grafu! Em bach!

Mags: Ga'i fod yn Cansas Cid?

Deio: Na chei! O-cê, Wi camp hîyr.

PAWB YN EISTEDD A GOSOD EU PETHAU.

ENNYD. MAGS YN CODI'N SYDYN.

Rhan 2

Mags: Yr ola i ben y garreg sy'n drewi!

(MAGS YN NEIDIO I BEN CARREG O FLAEN PAWB ARALL.)

Mags: 'Fi 'di Cinoddycasy! Chi gyd yn drewi!

Deio: Be' ti'n feddwl wyt t ti'n neud?

Mags: Pam?

Deio: 'S'da ti ddim hawl i fod yn Cinoddycasy! siŵr!

Mags: Pam?!!

Deio: Achos...!

Mags: Ie?

Deio: Achos... doedden ni ddim yn barod.

Yn nagoedden, Em?

Em: Nag oedden!

Deio: Dere lawr nawr!

Em: Ie, dere Mags. Lawr!

Deio: Wyt ti'n fy nghlywed i?!

(DEIO YN CYCHWYN I FYNŶR GARREG. MAGS YN RHOI PWNIAD IDDO GYDA'I CHLEDDYF.)

Mags: Arhosa nôl!

Deio: Asu! Aw!

Mags: *(MAGS YN LLAWN HYDER.)* Fi yw cinoddycasy!

Em: Dere, Mags, bydd yn ffêr!

Mags: Stand bac, slêf!

Deio: Dere yn dy fla'n, y fi yw'r Sheriff!

Mags: A fi sy' ar ben y garreg! Fi yw'r sheriff!

(YN DDIRYBUDD, RHI YN RHUTHRO AT Y GARREG, A CHLEDDYF YN EI LLAW.)

Rhi: *(YN SGRECHIAN)* Dai! [Die]

(RHI YN YMOSOD YN FFYRNIG AR MAGS. MAGS YN YMLADD YN ÔI AR Y CYCHWYN, OND RHI YN GRYFACH NA HI.)

Mags: O-reit! O-reit!

(RHI YN CYRRAEDD TOP Y GARREG; MAGS YN TAFLU EI CHLEDDYF MEWN OFN.)

Mags: O-reit, o-reit, Fi' 'di marw!

(RHI YN EI PHWNIO YN FFIAIDD Â'I CHLEDDYF.)

Em: Nefi! Rhi! Ara deg!

MAGS YN YSGWYD EI PHEN YN DDAGREUOL)

Em: Gad hi nawr, neu mi ddweda i gartre'!

(RHI YN DAL Y CLEDDYF UWCHBEN MAGS YN FYGYTHIOL.)

Saib

Rhi: Chware o'n i Mags! Sori!

YSBAID.

Rhan 3

(RHI YN ESTYN AM SIOCLED A'I GYNNIG I MAGS. MAGS YN 'I GYMRYD YN Y DIWEDD.)

Rhi: Wyt ti di cael dy iwnifform 'to?

(MAGS YN GWINGO YN ANGHYFFORDDUS.)

Rhi: Wyt ti?

(MAGS YN NODIO.)

Rhi: Odi hi'n newydd?

Mags: Fel newydd, medda mam!

Rhi: O Gaerfyrddin? Na ti, betia'i di! Na ble a'th mam i brynu f'un i. Lle cafodd dy fam dy iwnifform di?

Mags: Yn wardrob. Yn wardrob fy chwaer.

Rhi: O!

YSBAID

Mags: Gawn ni... gawn ni... eistedd da'n gilydd?

Ti a fi... ag ... Em a Deio, mewn rhes, fel oedden ni 'n rysgol bach?

Em: Falle 'na fyddwn ni da'n gilydd o gwbl, falle na fyddwn ni yn yr un dosbarth!

Mags: Ti'n meddwl 'ny?

Deio: Desgiau arwahân sydd 'da nhw, pawb ar 'i ben 'i hun.

Mags: Paid â bod yn wirion.... wir?

Deio: Wir!

EM YN DECHRAU CHWERTHIN

Em: O! Mags, paid â bod yn hen fabi.

Dewch rasio chi i'r garreg, fi fydd Cinoddycasyll!

Deio: Aros i fi Em! Fi di John Wên!

Rhi a Mags: A ni di'r Indians yn dod i'ch lladd chi!!